# CYD-BWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd ar: 25 Tachwedd 2016**

**Aelod Arweiniol / Swyddog: Gareth O Williams**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon / Huw Rees**

**Teitl: Cyd-bwyllgor Cyllideb ac Alldro 2016/17**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa alldro cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol AHNE ar gyfer 2016/17.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofyn i'r aelodau'n nodi'r alldro ariannol ar gyfer 2016/17 (Atodiad 1) a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2016/17 a balansau wrth gefn fel y manylir yn Atodiad 1. Cyllideb gwariant gros yr AHNE yw £440,135. Rhagwelir sefyllfa o orwariant bychan iawn o £40, ond mae lefel uchel o hyder y bydd hyn yn cael ei adfer dros y misoedd sydd ar ôl.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi copi o Ffurflen Flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i harwyddo ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i Ben 31 Mawrth 2016 (Atodiad 2).

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw'r AHNE yn helpu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, yn arbennig ein perthynas gyda phartneriaid cyllido a'n blaenoriaethau ar y cyd.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

*Amh.*

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17 i'r cyfarfod Cyd-bwyllgor ym mis Chwefror ac fe'i cymeradwywyd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2016 / 17. Ar hyn o bryd rhagwelir tanwariant bychan ond mae hyder y bydd hwn yn cael ei adfer o gyllideb bresennol.
Oherwydd y setliad refeniw drafft gwell nac a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig gwneud unrhyw ostyngiadau i lefelau cyllido'r rhaglen AHNE ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Ar hyn o bryd rydym yn dal i aros am gadarnhau gan Sir y Fflint a Wrecsam ynglŷn â'u bwriadau. Serch hynny mae'r cyfnod hwn o ddarbodaeth sector cyhoeddus yn debygol o barhau a rhaid cydnabod fod cyllidebau pob corff cyhoeddus yn debygol o ddod o dan bwysau cynyddol dros y blynyddoedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r gyllideb bresennol yn ddibynnol ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau eu lefel cyllid ar gyfer Rhaglen AHNE 2016-2018.
Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflwyno prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.